Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda
ddydd Mercher, 19 Ionawr 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), y Cynghorydd Rowland Rees-Evans, y Cynghorydd Gareth Davies, y Cynghorydd Peter Davies MBE, y Cynghorydd Keith Evans, y Cynghorydd Matthew Woolfall Jones a'r Athro Ian Roffe

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro; Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; Mr Arwyn Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid; Mr Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Ms Donna Pritchard – Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal, Ymyrraeth wedi'i Thargedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu; Mr Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Ms Alison Hodgson - Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol; Ms Hannah Rees- Swyddog Llywodraethu; Mrs Julie Brown, Rheolwr Archwilio; Ms Stephanie Land, Uwch Archwilydd; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

Archwilio Cymru: Ms Non Jenkins, Rheolwr Archwilio a Ms Bethan Hopkins, Uwch Archwilydd.

(9:30am-1:05pm)

1 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd Mr Jason Blewitt, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

2 Materion Personol
Dim.

3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu
Dim.

4 Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
Ystyriwyd Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o safbwynt yr astudiaethau yr oedd staff Archwilio Cymru wedi eu cynnal a'r rhai yr oeddent yn eu cynnal ar hyn o bryd.

Rhoddwyd diweddariad ynghylch yr adroddiadau canlynol:-

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Amserlen Rhaglen Waith Chwarter 2 2021-2022 – Ceredigion

b) Unrhyw waith ar berygl lleol a ryddhawyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Tystysgrif – Archwiliad o Asesiad Cyngor Sir Ceredigion o berfformiad 2020-21
- Briff Prosiect– Sicrwydd ac Asesiad Risg, Cyngor Sir Ceredigion

c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

- Briff prosiect cenedlaethol – asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'u defnydd wrth wneud penderfyniadau
- Briff prosiect cenedlaethol – Llamu Ymlaen - (2021-2022) (gan gynnwys Hysbysiad Preifatrwydd yr Archwilydd Cyffredinol)
- Adfywio Canol Trefi yng Nghymru
- Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru – Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Adfywio Canol Trefi
- Yr adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'
  - Darlun o Lywodraeth Leol
  - Darlun o Ofal Cymdeithasol
  - Darlun o Ofal Iechyd
  - Darlun o Ysgolion
  - Darlun o Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Adroddiad Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn
- Adolygiad Sylfaenol ar Ddatgarboneiddio wrth fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd
  - Llythyr oddi wrth Dwrnai Cyffredinol Cymru / Galwad am Dystiolaeth (Tachwedd 2021)

CYTUNWYD i nodi'r adroddiadau a'r diweddariadau er gwybodaeth gan nodi y byddai Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad am dabl y rhaglenni yn yr wythnosau nesaf.

5 Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Ystyriwyd ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth. Roedd yr Adroddiad hwn yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed o safbwynt cynigion ac argymhellion.

Roedd dwy ran i'r Adroddiad hwn fel a ganlyn:
a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion*;* a
b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor*.*

Y Sefyllfa Bresennol

a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion

- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2019-2020, Diweddariad 2020-2021:
  - Taenlen Excel yn dangos yr ymatebion a gafwyd drwy ffurflenni ymateb y rheolwyr
    - Ffurflen Ymateb y Rheolwyr (gwybodaeth wedi'i diweddaru) – Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb
    - Ffurflen Ymateb y Rheolwyr – Y Fenter Dwyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-21
- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor – Diweddariad 2021-2022:
  - Taenlen sy'n Monitro Argymhellion Archwilio Cymru 2021-2022
    - Ffurflen Ymateb y Rheolwyr i'r Adroddiad Cenedlaethol am Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor

- Ymateb i'r:
  - Adolygiad Sylfaenol ar Ddatgarboneiddio wrth fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd (galwad am dystiolaeth)
  - Adroddiad ynghylch Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn (Adroddiad Cenedlaethol) (Ymateb ar lafar gan y gwasanaeth)

CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-
(i) nodi cynnwys ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth;
(ii) ar ôl i'r ymatebion terfynol i Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, na fyddai'r ffurflenni hynny wedyn yn cael eu cyflwyno eto yn y prif daenlenni, a dim ond Ffurflenni Ymateb a oedd yn cynnwys diweddariadau (mewn testun coch) fyddai'n parhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Byddai cofnod o holl ffurflenni ymateb y rheolwyr, gan gynnwys y ffurflenni a gwblhawyd, yn parhau i gael eu cadw'n fewnol.
(iii) y byddai Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr sy'n cynnwys diweddariadau yn parhau i gael eu cyflwyno ar ffurf dogfennau Word gan fod y dogfennau hyn yn haws eu darllen na'r taenlenni Excel a ddarperir ar hyn o bryd.

Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru 2020-21 a'r Adroddiad ynghylch Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol - Effaith Covid-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch y deilliannau yn dilyn Asesiad Archwilio Cymru o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor Sir ac adroddiad Archwilio Cymru am Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol.

CYTUNWYD i
(i) nodi cynnwys dogfen Archwilio Cymru 'Cyngor Sir Ceredigion - Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol 2020-21',
(ii) nodi Ffurflen Ymateb y Cyngor; a

(iii) nodi'r Adroddiad Cenedlaethol fel y'i cyflwynwyd

7 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/7/21 – 30/9/21 (Chwarter 2)

Ystyriwyd adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ynghylch Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/7/21 – 30/9/21 Chwarter 2. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD i nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.

8 Siarter Archwilio Mewnol

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch y Siarter Archwilio Mewnol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor am y Siarter Archwilio Mewnol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y canlynol wedi newid yn y siarter:-

- Pwynt 4.7 – er mwyn ystyried y trefniadau atal twyll sy'n cefnogi'r ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol (NFI);
- Pwynt 5.2 – er mwyn darparu sicrwydd nad yw cyflwyno Swyddog Llywodraethu i'r strwythur yn effeithio ar annibyniaeth a gwrthrychedd y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- Pwyntiau 6.1 i 6.3 – er mwyn nodi bod y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol newydd wedi dechrau ar 1/1/2022.

Roedd hefyd yn adlewyrchu'r newid yn enw'r pwyllgor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r dyddiad y cafodd Strategaeth y Cyngor ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Gwrthwyngalchu Arian) (pwynt 4.5) ei diwygio a'i chymeradwyo ac roedd yn cyfeirio at effaith parhaus y pandemig ar waith Archwilio Mewnol yn 2021/22 (pwyntiau 2.3, 2.7 a 5.1).

CYTUNWYD i gymeradwyo'r adroddiad a'r Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig.

9 Y Fenter Twyll Cenedlaethol – Hunanarfarniad Archwilio Mewnol

Ystyriwyd copi o'r hunanarfarniad, yn dilyn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2021, i ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor bod Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi'r ymarfer.

CYTUNWYD i nodi'r hunanarfarniad.

10 Adroddiad ynghylch Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021/22 a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol (2022/2023)

Ystyriwyd Adroddiad ynghylch Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021/22, Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol (2022/2023) a'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Cyflwynwyd yr adolygiad diweddaraf o Fframwaith Llywodraethu 2021-2022, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-2023.

Bu i'r Pwyllgor argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:
i) Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-22 a
ii) Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-2023

Cytunwyd hefyd y byddai'n werth ystyried rhoi esboniad ar ddechrau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynglŷn â'r bandiau a ddefnyddiwyd wrth ddarparu sgoriau yn unol â chanllawiau CIPFA. Byddai hyn yn hwyluso pethau i'r cyhoedd a fyddai'n darllen y ddogfen. Hefyd, dywedwyd y dylai 'cof corfforaethol' gael ei sefydlu er mwyn cael cysondeb. Byddai hyn yn sicrhau bod cysylltiad rhwng yr argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau a pholisïau, hunanasesiadau a fframweithiau'r Cyngor. Byddai angen cynnwys hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau gwaith olrhain a monitro.
Dywedwyd y byddai sylw yn cael ei roi i hyn yn y Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Hefyd, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gael ei wahodd i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad am brosesau'r Cyngor o ran ymgysylltu â'r cyhoedd gan fod pryderon wedi'u codi bod y wybodaeth sy'n cael ei chasglu fel rhan o'r ymarferion hyn yn annigonol.

11 Adroddiad ar Fframwaith Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru a Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau

CYTUNWYD bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys Fframwaith Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru (Ebrill 2021) a'r Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau (Mehefin 2021).

12 Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno er mwyn rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020/2021.

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth – 2020/2021 a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020-2021.

CYTUNWYD hefyd, o'r flwyddyn nesaf ymlaen, y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyntaf cyn iddo fynd gerbron y fforymau eraill. Ar hyn o bryd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd y fforwm olaf i ystyried yr adroddiad hwn. Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor hwn ystyried yr adroddiad oherwydd ei swyddogaethau newydd o ran cwynion, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Paragraff 115, 4 (da/db).

13 Adroddiad ynghylch y Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd wedi'i gyflwyno er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod trefniadau effeithiol ar waith i reoli gweithdrefnau'r Awdurdod o ran materion ariannol, rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol.

CYTUNWYD:-
1) bod yr Aelodau yn croesawu gweld y Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr agenda; ac
2) y byddai'r Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gynnwys fel eitem agenda reolaidd ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor.

Awgrymwyd hefyd y dylai teitl pob colofn gael ei roi ar bob un o dudalennau'r tabl er mwyn lleihau'r angen i'r defnyddiwr sgrolio drwy'r ddogfen gyfan. Hefyd, dylid ystyried cyflwyno cofnod o'r math hwn ym mhob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**.**

14 Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Dywedwyd bod yr holl risgiau wedi'u hadolygu a'u bod yn cynnwys sylwebaeth wedi'i diweddaru. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r newidiadau canlynol i'r Gofrestr ers y diweddariad diwethaf:

- R003 Gwella a Pherfformiad – mae sgôr y risg wedi gostwng o 12 i 6 i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf a'r ffaith bod cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad a Chynllunio Busnes wedi ailddechrau yn dilyn cyfnod yn ystod 2020/21 pan na chynhaliwyd y cyfarfodydd am fod angen ymateb i bandemig Covid.

- R004 Parhad Busnes – mae sgôr y risg wedi cynyddu o 10 i 15 i adlewyrchu'r risg o ran ymosodiadau meddalwedd wystlo (ransomware) ar rwydwaith y cyngor a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gallu i barhau â gwaith y cyngor a darparu gwasanaethau hanfodol.

- R016 Brexit – mae sgôr y risg wedi cynyddu o 12 i 16 i nodi'r pryderon diweddaraf ynghylch cyflenwi llafur a nwyddau, ac yn benodol prinder gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.

- R021 Ffosffadau – Mae ffosffadau yn risg newydd y chwarter hwn. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n argymell cyfyngiadau cynllunio oherwydd lefelau uchel o ffosffadau yn afon Teifi. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar y sir a bydd yn atal adeiladau rhag cael eu datblygu ar draws 44.6% o Geredigion, gan effeithio ar dwf economaidd y sir.

Nid oedd sgoriau risg y risgiau sy'n weddill wedi newid ers yr adroddiad diwethaf, ond roedd y camau lliniaru wedi'u hadolygu a'r sylwebaeth wedi'i diweddaru.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol a'r ffaith na fyddai Chwarter 3 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth am na ragwelid y byddai newidiadau mawr yn y risgiau ers cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Byddai saethau yn cael eu cynnwys ar frig y dudalen wrth ymyl pob risg i ddangos a oedd y risg yn mynd i fyny neu i lawr er mwyn hwyluso pethau i'r darllenydd.

15 Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd. Trafodwyd hefyd y byddai'r Flaenraglen Waith nesaf yn dechrau cynnwys eitemau ar gyfer agendâu cyfarfodydd y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

16 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 yn rhai cywir**.**

17 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

18 Adroddiad Archwilio Cymru ar Seibergadernid - Nid yw'r atodiadau ar eitem 18 ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 18 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol â'r Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

CYTUNWYD i eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr atodiad yn unol â pharagraff 18 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007.

Caniatawyd i'r cyhoedd ddychwelyd i'r cyfarfod a CHYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

(i) nodi cynnwys, casgliad ac argymhelliad Adroddiad Archwilio Cymru ar Seibergadernid yn Atodiad 1; a
(ii) nodi bod meddalwedd briodol yn cael ei phrofi i ganiatáu i iPads gael eu defnyddio mewn amgylchedd diogel yn y dyfodol.

Caniatawyd i'r cyhoedd ddychwelyd i'r cyfarfod ac ystyriwyd eitem 19 isod:-

19 **Adroddiad Dilynol ar Wasanaethau Trefnwyr Angladdau'r Crwner- Nid yw'r atodiadau ar eitem 19 ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol â'r Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.**
CYTUNWYD i eithrio'r cyhoedd wrth ystyried yr atodiadau yn unol â pharagraff 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007.

Caniatawyd i'r cyhoedd ddychwelyd i'r cyfarfod a CHYTUNWYD i wneud y canlynol:-
(i) nodi cynnwys a chasgliadau'r Adroddiad Dilynol (Atodiad 1) a'r Adroddiad Cymharu (Atodiad 2); a
(ii) rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu fynd ati i ofyn am ymateb oddi wrth y rheoleiddwyr a chyrff perthnasol ynglŷn â'r mater hwn; gan nodi yn yr ohebiaeth bod angen iddynt ymateb o fewn y bythefnos nesaf.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____